## P-03-307 Dylunio er mwyn Arloesi yng Nghymru

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried y rôl bwysig y gallai dylunio ei chwarae yng nghyd-destun arloesi, darparu gwasanaethau cymdeithasol a gweithredu polisïau a rhaglenni menter gymdeithasol. Mae'r alwad hon yn dod yn sgil ymrwymiad cynyddol gwledydd eraill ar draws y byd i'r agenda dylunio, ac yn baratoad ar gyfer polisi arloesi newydd y disgwylir i'r Comisiwn Ewropeaidd ei gyhoeddi. Mae'r polisi newydd hwn yn debygol o gynnwys diffiniad ehangach o arloesi, sef diffiniad sy'n ymdrin â'r gwasanaethau a ddarperir yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector mentrau cymdeithasol, ar delerau cydradd â'r gweithgareddau traddodiadol a welir yn y maes ymchwil a datblygu.

**Linc i'r ddeiseb:** http://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-307.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Gavin Cawood

**Nifer y llofnodion:** 369

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 16 Tachwedd 2010, 11 Ionawr a 1 Mawrth 2011.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd gohebiaeth gan y deisebwr.